

POLISI PREIFATRWYDD

Bydd gwybodaeth bersonol sy'n cael ei ddarparu i ni yn cael ei gadw gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT), adran o Brifysgol Abertawe ar gyfer prosesu ceisiadau ar gyfer Cymrodoriaeth yr AAU¹ ar ran yr AAU ynghyd â chefnogi chi wrth ddatblygu eich cais. Lle bod Prifysgol Abertawe yn prosesu gwybodaeth bersonol, bydd yn brosesydd data. Lle bod Prifysgol Abertawe yn prosesu gwybodaeth bersonol ar gyfer defnydd eu hun i weinyddu a chefnogi chi gyda'ch cais, bydd y Rheolydd Data. Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Rheolydd Data gall cael ei gysylltu trwy e-bostio dataprotection@abertawe.ac.uk.

Pam rydym ni'n casglu eich data: Rydym yn casglu eich enw a'ch e-bost i alluogi SALT i hysbysebu'r Academi Addysg Uwch o geisiadau llwyddiannus i gynhyrchu manylion cofrestru a thystysgrif. Mae'r prosesu o wybodaeth bersonol ar gyfer y pwrpasau yma oherwydd bod prosesu yn angenrheidiol i gyflawni'r cytundeb rhwng y Brifysgol a'r AAU.

Gallwn hefyd ddefnyddio'ch data rydych yn darparu i ni er mwyn cyfathrebu cyfleoedd i gael cymorth, diweddarau eich cymwysterau dysgu ar system AD y Brifysgol ac i drosglwyddo gwybodaeth i staff sydd yn gefnogaeth mentora. Mae angen prosesu at ddibenion y buddiannau dilys a ddilynir gan y rheolwr data lle mae er budd y Brifysgol i sicrhau cadw cofnodion a chyfathrebu cywir.

Efallai bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau asesu, i hysbysu eich rheolwr llinell neu Gyfarwyddwr Coleg Dysgu ac Addysgu ynglŷn â'ch datblygiad proffesiynol ac i gadarnhau penderfyniadau i ymwneud â cheisiadau dyrchafiad. Bydd eich enw a'ch statws Cymrodoriaeth neu'ch datblygiad i gydnabyddiaeth Cymrodoriaeth efallai hefyd yn cael eu rhannu gydag aelodau o staff allweddol yn eich Coleg/pwnc. Mae'r staff yma yn rhai sy'n gysylltiedig â chefnogi mwyhau ansawdd dysgu er enghraifft Cynrychiolydd SALT/Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu/Pennaeth Coleg neu person penodedig.

Efallai byddwn yn gofyn i chi i rannu'ch manylion gydag aelodau o staff eraill sydd eisieu datganiad cefnogol ar gyfer ceisiadau Cymrodoriaeth yr AAU eu hun a gyda staff sydd eisieu cael eu harsylwi gan gyd-weithwyr i fwyhau ansawdd o'u haddysgu. Bydd y math yma o brosesu ond yn digwydd os rydych wedi rhoi eich caniatâd.

I dynnu neu newid eich caniatâd ar unrhyw adeg, cysylltwch â Rheolwr Rhaglen SAR, Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP neu trwy e-bostio salt@abertawe.ac.uk – rhowch holl manylion y cais.

Pwy sy'n derbyn eich data: Pan rydych wedi cofrestru ar gyfer sesiynau Cymrodoriaeth yr AAU² byddwn ond yn rhannu'ch manylion gyda staff allweddol sydd ynghlwm â'r broses mentora ac asesu, i'r rhai sydd yn gyswllt gyda'r broses dyrchafu ac arolwg datblygiad proffesiynol (PDR) neu i'r rhai sy'n gysylltiedig â chefnogi mwyhau ansawdd dysgu yn eich Coleg/pwnc. Byddwn hefyd yn rhannu'ch gwybodaeth gyda'r AAU fel eu bod nhw'n gallu cadw eich cydnabyddiaeth a chwblhau'r broses o'ch cais.

Sut rydym ni'n diogelu eich data: Mae eich enw, Rhif Staff (lle'n briodol) a manylion cyswllt yn cael eu cadw ar gronfa data SALT a ddiogelwyd gan gyfrinair ac ond staff SALT sydd â mynediad iddo. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu tynnu oddi wrth y gronfa data unwaith nad ydych bellach yn aelod o staff yn y Brifysgol. Efallai bydd manylion personol gyda'ch cais. Mae'r rhain yn cael eu cadw am 3 mlynedd yn dilyn canlyniad ar eich cais yn unol ag amserlen cadwraeth GGS a fesul mesurau diogelwch a ddefnyddiwyd ar gyfer y meddalwedd lle gwnaethoch gais.

Beth rydym ni'n gwneud gyda'ch data: I alluogi ni i roi cefnogaeth ddigonol i chi yn natblygiad eich cais, gall Tîm Cydnabyddiaeth yn SALT recordio gwybodaeth ynglŷn â'ch datblygiad. Bydd y wybodaeth yma yn cael eu storio ar ffurf nodyn byr ar gronfa data SALT. Gall y wybodaeth yma gael ei rhannu gyda'r rheiny ynghlwm â'r broses dyrchafu neu argymhell cyfnod prawf o fewn eich Coleg, i'r rhai sy'n gysylltiedig â chefnogi mwyhau ansawdd dysgu yn eich Coleg/pwnc neu yn adran AD y Brifysgol.

Canlyniad o beidio darparu data pan yn seiliedig ar ofyniad contract

Bydd methiant i ddarparu eich enw a chyfeiriad e-bost ar gyfer y pwrpas a nodir yn golygu ni fydd yr AAU yn gallu creu manylion cofrestru na chynhyrchu tystysgrif os yw eich cais ar gyfer Cymrodoriaeth yn llwyddiannus.

¹ Mae'r term Cymrodoriaeth yn golygu pob categori o Gymrodoriaeth a chefnogwyd trwy Lwybr Cais Abertawe

² Wrth Gymrodoriaeth rydym yn cyfeirio at bob categori o Gymrodoriaeth a chefnogwyd drwy Lwybr Cais Abertawe: Cymrawd Cysylltiol/Cymrawd/Uwch Gymrawd

Fel gallwch geisio am fynediad i'ch data:

Mae gennych hawl i fynediad i'ch data personol, i wrthwynebu'r prosesu o'ch gwybodaeth bersonol, i wirio, i ddileu, i gyfyngu ac i gludo'ch gwybodaeth bersonol. Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r defnydd o'ch data ar gyfer y pwrpasau yma neu eisiau copi o'r data sydd gennym ohonoch, dylid ceisiadau neu gwrthwynebon gael eu gwneud mewn ysgrifen i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:-

Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol

Swyddfa'r Is-ganghellor

Prifysgol Abertawe

Abertawe, SA2 8PP

E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

Sut i wneud cwyn

Os rydych yn anhapus gyda'r ffordd y mae eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei brosesu, dylid cysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn gyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os rydych o hyd yn anhapus yna mae gennych yr hawl i geisio'n union gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth am ddyfarniad. Gall y Comisiynydd Gwybodaeth gael eu cysylltu ar:-

Information Commissioner's Office

Wycliffe House,

Water Lane,

Wilmslow,

Cheshire, SK9 5AF

www.ico.org.uk